Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llannon
Llannon
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 5HX

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 30/06/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Llannon wedi'i lleoli ym mhentref Llannon ger Aberaeron, ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Ceredigion. Mae 45 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed a chânt eu haddysgu mewn dau ddosbarth oed cymysg. Mae tua 19% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Daw llawer o'r disgyblion o'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae tua 35% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, ac nid oes yr un â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw lleiafrif o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg a bron bob un o gefndiroedd Prydeinig gwyn.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae cryn ansefydlogrwydd wedi bod yn sefyllfa staffio'r ysgol. Mae pennaeth dros dro mewn gofal yr ysgol ers mis Chwefror 2016. Bydd pennaeth newydd yn cychwyn ei swydd ym mis Medi 2016. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yn Ebrill 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Llannon yn 2015-2016 yw £4,133. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngheredigion yw £7,464 a'r lleiafswm yw £3,069. Mae Ysgol Llannon yn yr 20fed safle o'r 47 ysgol gynradd yng Ngheredigion o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm
- ychydig iawn o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n gwneud cynnydd priodol tuag at gyrraedd eu targedau
- nid yw gallu mwyafrif y disgyblion i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi datblygu'n llawn
- nid yw'r profiadau dysgu yn herio'r disgyblion, nac yn cynnig digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol
- nid yw'r ysgol yn darparu cwricwlwm addas sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn
- mae'r addysgu yn aneffeithiol dros gyfnod o amser
- nid yw gweithdrefnau asesu wedi datblygu'n llawn i sicrhau bod pob athro yn olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon llwyddiannus

Fodd bynnag:

- mae ymddygiad llawer o'r disgyblion yn dda
- mae lefelau presenoldeb disgyblion yn dda o'u cymharu ag ysgolion tebyg

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn anfoddhaol oherwydd:

- bod y cyfnod o ansefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth a throsiant staff wedi cael effaith sylweddol ar gyfeiriad strategol yr ysgol ac ar ddeilliannau disgyblion
- nid yw arweinwyr a llywodraethwyr wedi mynd i'r afael â'r safonau isel a gyflawnir gan ddisgyblion na gwendidau yn y ddarpariaeth
- nid yw trefniadau ar gyfer hunanarfanu a sicrhau gwelliant yn effeithiol
- nid yw llywodraethwyr yn cyflawni eu rôl yn ddigon cadarn wrth hunanarfarnu na chynllunio ar gyfer gwella
- nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn ddigon arfarnol mewn mannau nac wedi ei sefydlu'n ddigon cadarn ar ganfyddiadau monitro dros gyfnod estynedig

Fodd bynnag:

- mewn amser byr, mae'r pennaeth dros dro wedi rhannu amcanion priodol ar gyfer datblygu'r ysgol gyda'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni

- yn ystod y cyfnod ansefydlog diweddar, mae'r ysgol wedi cydweithio'n briodol gyda'r awdurdod lleol

## Argymhellion

A1 Cryfhau medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion fel eu bod yn gallu eu defnyddio'n hyderus ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod cynllunio athrawon yn diwallu'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn

A3 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu er mwyn sicrhau her briodol i ddisgyblion

A4 Gwella prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion

A5 Cryfhau gweithdrefnau arweinyddiaeth er mwyn sicrhau cyfeiriad strategol clir gyda ffocws ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau

A6 Datblygu rôl y llywodraethwyr yng ngweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion islaw'r lefel ddisgwyliedig o'u gymharu â'u cyfoedion. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, dim ond lleiafrif o ddisgyblion sy'n gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar a gwrando yn briodol ac yn datblygu ystod gynyddol o eirfa sylfaenol. Maent yn ymateb yn addas i gwestiynau gan athrawon ac oedolion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn cyfathrebu ar lafar yn briodol ac yn datblygu ystod addas o eirfa bynciol. Fodd bynnag, maent yn llai hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg yn ystod gwersi.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif o'r disgyblion yn datblygu medrau darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn trafod cynnwys y llyfrau yn addas ac yn medru disgrifio'u hoff gymeriadau a digwyddiadau yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn foddhaol. Maent yn defnyddio'u medrau ffoneg yn briodol er mwyn darllen geiriau anghyfarwydd. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif y disgyblion yn caffael medrau darllen yn unol â'u hoed a'u gallu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae lleiafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol gan ddechrau amrywio'u brawddegau a defnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Fodd bynnag, mae medrau ysgrifennu y mwyafrif o ddisgyblion yn wan, gyda'u sillafu, atalnodi a chystrawen eu brawddegau'n anghyson. Yng nghyfnod allweddol 2, nid oes gan y lleiafrif o ddisgyblion afael gadarn ar fedrau atalnodi sylfaenol nac ar sillafu. Mae ychydig o ddisgyblion uwch eu gallu yn gwneud defnydd addas o baragraffu er mwyn trefnu'u gwaith yn annibynnol. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n defnyddio ystod lawn o atalnodi nac yn defnyddio ystod ehangach o eirfa yn gyson yn eu gwaith. Ar draws cyfnod allweddol 2, nid yw'r disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau nac ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm yn ddigon effeithiol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio ffeithiau rhif yn addas i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Maent yn creu graffiau syml i gyflwyno data, mesur hyd gwrthrychau a chyfri arian. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion afael foddhaol ar ystod briodol o fedrau rhif. Maent yn defnyddio'u medrau'n addas i ddadansoddi data'n briodol, er enghraifft wrth ddarganfod cyfartaledd pellter rhwng Ysgol Llannon a lleoliadau eraill. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, mae gallu disgyblion i ddatrys problemau rhifedd mewn sefyllfaoedd gwahanol a'u defnydd o strategaethau cyfrifo pen yn wan.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. O ganlyniad, nid yw'r data yn ddibynadwy a gall effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Yn gyffredinol, mae perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi bod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefelau disgwyliedig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn gyffredinol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros yr un cyfnod.

Ar y deilliant uwch, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad ar y lefel uwch yn gyffredinol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Saesneg o gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, mae perfformiad ar y lefel uwch mewn mathemateg, Cymraeg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf dros y tair blynedd diwethaf.

Nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol tuag at gyrraedd eu targedau. Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng cyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion na rhwng perfformiad y merched a'r bechgyn.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt bryderon. Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos cwrteisi a pharch at gyfoedion ac oedolion. Mae ymddygiad llawer o'r disgyblion yn dda.

Mae mwyafrif y disgyblion yn cydweithio'n addas o fewn eu grwpiau ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a osodir. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw gallu mwyafrif y disgyblion i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi datblygu'n llawn. Mae eu cyfraniad o fewn y gwersi, a'u hymrwymiad i ddysgu, yn gyfyngedig.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Mae lefelau presenoldeb disgyblion yn dda ac yn gyson uwch na'r cyfartaledd o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Mae gan y rhan fwyaf o disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fyw, bwyta ac yfed yn iach. Maent yn ymgymryd â gwahanol weithgareddau corfforol yn rheolaidd, sy'n cyfrannu'n dda tuag at eu lles. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gwersi a chlybiau ysgol, gan gynnwys tenis a rygbi.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn ymfalchïo yn eu dyletswyddau i helpu eu cyd-ddisgyblion a'u hymdrechion i godi arian er lles eraill. Er bod gan y disgyblion weithdrefnau addas ar gyfer rhaeadru eu syniadau i weddill yr ysgol, nid ydynt yn chwarae rhan ganolog ym mhenderfyniadau pwysig yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n briodol yn y gymuned leol ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau blynyddol, er enghraifft yn nathliadau Nadolig y gymuned.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Anfoddhaol

Er bod athrawon yn dechrau defnyddio dulliau newydd o gynllunio, nid yw'r ysgol yn darparu cwricwlwm addas sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. Nid yw'r cynllunio bob tro'n sicrhau profiadau dysgu ysgogol sy'n diwallu anghenion disgyblion yn briodol nac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn ddigon llwyddiannus.

Yng nghyfnod allweddol 2, caiff y disgyblion gyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu'n ddysgwyr ymchwiliol ac annibynnol. Nid yw'r ysgol yn darparu cyfleoedd cydlynus i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael eu diwallu'n briodol ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o Gymreictod drwy weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, yn cynnwys eisteddfod yr ysgol i ddathlu Gŵyl Ddewi. Mae gweithgareddau gymharol newydd er mwyn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg, er enghraifft drwy strategaeth gwobrwyo i ddisgyblion am siarad Cymraeg drwy'r cynllun 'Cymraeg Cŵl'. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiad cynaliadwy a materion dinasyddiaeth fyd eang yn briodol drwy weithgareddau ymarferol sy'n cynnwys ailgylchu a thrwy ymweliadau addysgol i ganolfan ynni dŵr lleol. Yn ddiweddar, ailsefydlwyd y pwyllgor eco er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o faterion amgylcheddol. Fodd bynnag, prin iawn yw'r cyfleoedd o fewn gwersi i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o'r materion hyn ymhellach.

## Addysgu: Anfoddhaol

Mae ansawdd yr addysgu dros gyfnod o amser yn aneffeithiol. Nid yw'r tasgau bob amser yn ymateb i anghenion pob disgybl ac mae disgwyliadau'r athrawon yn rhy isel, yn enwedig o ran herio'r disgyblion mwy abl. Nid yw'r dulliau addysgu bob tro'n cynnig digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol nac yn datblygu eu medrau meddwl yn ddigonol.

Mae perthynas waith foddhaol yn bodoli rhwng y staff a'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn llwyddo i ddarparu profiadau cyson sy'n ennyn diddordeb ac yn bodloni anghenion disgyblion. Nid ydynt yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion ar draws y cwricwlwm nac yn cymryd cyfleoedd i gywiro iaith disgyblion yn ddigon cyson er mwyn hyrwyddo eu defnydd o iaith gywir.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn aneffeithiol. Nid yw cynnydd a lles disgyblion yn cael eu holrhain yn effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw staff yn medru mesur effaith y ddarpariaeth ar safonau na chynllunio'n effeithiol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cyfeirio'n briodol i'r hyn y maent wedi'i gyflawni'n dda a'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ymateb i'r sylwadau, er nid yw'r arferion hyn bob tro'n sicrhau gwelliant yn eu gwaith. Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth briodol o'u targedau dysgu, sy'n gysylltiedig â datblygu eu medrau rhifedd a llythrennedd.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth berthnasol am gynnydd eu plant trwy adroddiadau blynyddol a nosweithiau agored priodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n briodol ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mae gwasanaethau boreol yn cael eu defnyddio'n gyson er mwyn dysgu disgyblion am bwysigrwydd gonestrwydd a pharchu eraill.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n briodol gyda gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys therapydd iaith, gwasanaethau cymdeithasol, nyrs yr ysgol a'r heddlu. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n ddigon effeithiol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ar draws yr ysgol. Prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am yr agweddau hyn mewn gwersi.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailsefydlu gweithgareddau allgyrsiol, yn cynnwys golf, dawns a thenis, sy'n hybu lles a ffitrwydd y disgyblion yn briodol.

Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn addas ac mae cynlluniau addysg unigol priodol ar gyfer pob disgybl sy'n cael cymorth ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cydweithio'n ddigon effeithiol gyda disgyblion a rhieni yn y broses hon ac nid ydynt yn monitro cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau. Er bod yr ysgol yn darparu rhaglenni ymyrraeth i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion, dim ond ychydig iawn o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau.

Mae trefniadau diogelu'r ysgol yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan Ysgol Llannon ethos cyfeillgar lle chaiff y disgyblion hawl gyfartal i weithgareddau a darpariaeth yr ysgol. Mae'r staff yn hyrwyddo ymdeimlad o gymuned ofalgar drwy ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion hynaf gymryd gofal o'r rhai ieuengaf. Caiff disgyblion eu hannog i fod yn oddefgar ac i gefnogi'r gymuned leol ac elusennau yn rheolaidd, er enghraifft wrth gefnogi elusen gofal cancr trwy werthu cennin pedr.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'i hamgylchedd ffisegol. Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer gwersi a gweithgareddau perthnasol er nid ydynt yn gwneud y defnydd gorau ohonynt. Er enghraifft, nid yw'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'r cyflenwad o adnoddau TGCh i wella medrau disgyblion.

Mae arddangosfeydd deniadol a lliwgar yn y dosbarthiadau sydd yn creu amgylchedd dysgu hwylus. Fodd bynnag, prin yw enghreifftiau o lwyddiannau disgyblion sydd yn cael eu harddangos ar draws yr ysgol. Mae adeiladau a thir yr ysgol yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Dros gyfnod o amser, mae arweinyddiaeth yr ysgol wedi bod yn aneffeithiol. Nid ydynt wedi mynd i'r afael yn ddigon effeithiol â materion pwysig yn y ddarpariaeth a pherfformiad yr ysgol. Nid yw arweinwyr wedi datblygu na defnyddio prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn ddigonol er mwyn gwella meysydd pwysig yn y ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'r cyfnod o ansefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth a throsiant staff wedi cael effaith sylweddol ar gyfeiriad strategol yr ysgol ac ar ddeilliannau disgyblion.

Mewn amser byr, mae'r pennaeth dros dro wedi rhannu amcanion priodol ar gyfer datblygu'r ysgol gyda'r staff, y disgyblion, y llywodraethwyr a'r rhieni. Yn ddiweddar, mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n briodol ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw addas i fwyafrif o flaenoriaethau cenedlaethol. Fodd bynnag, ni roddwyd digon o sylw i ddatblygu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm nac i weithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Dros gyfnod o amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi cyfrannu'n ddigon effeithiol at gyfeiriad strategol yr ysgol a thuag at wella ansawdd y ddarpariaeth a'r safonau. Mae ychydig o'r llywodraethwyr wedi dechrau ymweld â'r ysgol i wella eu dealltwriaeth o waith disgyblion a'u safonau. Fodd bynnag, nid ydynt yn cyflawni eu rôl yn ddigon cadarn wrth hunanarfarnu na chynllunio ar gyfer gwella.

Yn ddiweddar, mae'r corff llywodraethol wedi cydweithio'n briodol gyda swyddogion yr awdurdod lleol er mwyn dwyn yr ysgol i gyfrif ac i sefydlu strwythur staffio sefydlog ar gyfer yr ysgol. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith hyn ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu'r ysgol wedi cael effaith gadarnhaol ar wella deilliannau disgyblion. Dros gyfnod o amser, nid yw'r ysgol wedi gweithredu systemau priodol i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i'w cywiro. Mae gweithdrefnau hunanarfarnu presennol yr ysgol yn rhai newydd sydd heb eu sefydlu'n effeithiol hyd yn hyn. Yn ddiweddar iawn, mae arweinwyr wedi sefydlu amserlen monitro briodol sy'n cynnwys dadansoddi data, arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a gwrando ar farn rhanddeiliaid.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys gwybodaeth briodol am safonau a darpariaeth yr ysgol. Mae'n nodi perfformiad yr ysgol yn erbyn ysgolion tebyg ac yn adnabod cryfderau a meysydd gwella'n briodol. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn ddigon arfarnol mewn mannau nac wedi ei sefydlu yn ddigon cadarn ar ganfyddiadau monitro dros gyfnod estynedig. O ganlyniad, nid yw'r adroddiad bob tro'n darparu darlun cyflawn a chywir o waith yr ysgol.

Mae cyswllt clir rhwng yr adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r ysgol sydd o fewn y cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn nodi nifer o flaenoriaethau gwella sy'n canolbwyntio'n briodol ar godi safonau ynghyd â dangosyddion llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw'r ddogfen yn nodi cyfrifoldebau, amserlen weithredu na chostau'n ddigon manwl. Er bod arweinwyr wedi arfarnu targedau o'r flwyddyn gynt, nid oes tystiolaeth bod cynlluniau datblygu blaenorol wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau na lles disgyblion. Nid oes gan yr ysgol hanes ddigon llwyddiannus o reoli newid, er enghraifft wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r arolygiad blaenorol a sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n briodol at safonau cyflawniad a lles y disgyblion. Mae ffocws y pennaeth dros dro ar hybu cyfathrebu agored a chydweithredol yn sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth rhieni. Mae'r gymdeithas rhieni yn gefnogol i'r ysgol ac yn trefnu gweithgareddau codi arian yn gyson, er mwyn prynu adnoddau a hybu gweithgarwch yr ysgol. Er enghraifft, drwy ariannu'r cynllun ffrwythau er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn derbyn darn o ffrwyth yn ddyddiol.

Mae partneriaeth briodol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r darpariaethau cyn-ysgol lleol. Mae'r sesiynau anwytho ar ddiwedd pob tymor yn gymorth i ddisgyblion newydd ymgartrefu yn fuan yn yr ysgol. Mae cynllun pontio sefydledig rhwng yr ysgol â'r ysgol uwchradd, gyda amrywiaeth o weithgareddau llwyddiannus sy'n paratoi'r disgyblion yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn elwa o'r berthynas waith fuddiol sy'n bodoli rhwng ysgolion yr ardal. Mae athrawon yn ymuno ar gyfer digwyddiadau hyfforddi, sesiynau cymedroli a chyd-safoni asesiadau gwaith ac yn cyd-drefnu digwyddiadau yn cynnwys mabolgampau ysgolion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y partneriaethau hyn ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

Mae'r ysgol yn manteisio'n rheolaidd ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, er enghraifft drwy ymweliadau â chartrefi'r henoed a gweithgarwch yr eglwys a'r capel lleol. Mae cyswllt yn bodoli rhwng yr ysgol â'r clwb tennis ac yn ddiweddar gyda'r clwb golff lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn gwella ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cymuned a'u datblygu'n ddinasyddion cyfrifol yn briodol.

Mae cyswllt agos yn bodoli rhwng yr ysgol a'r awdurdod lleol. Yn ystod y cyfnod ansefydlog diweddar, mae'r ysgol wedi cydweithio'n briodol gyda'r awdurdod lleol a'r consortiwm. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi derbyn cefnogaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws yr ysgol sy'n dechrau cael effaith ar ddeilliannau disgyblion.

**Rheoli adnoddau:  Anfoddhaol**

Mae ansefydlogrwydd yn y sefyllfa staffio dros gyfnod o amser wedi effeithio'n negyddol ar yr ysgol.  Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd addas o gymorthyddion i gefnogi dosbarthiadau a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Yn ddiweddar, mae trefniadau rheoli perfformiad yn eu lle ar gyfer athrawon a gosodir targedau priodol yn unol â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion proffesiynol unigol.  Mae'r athrawon yn derbyn amser priodol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.  Mae'r cynorthwywyr addysgu yn derbyn hyfforddiant ar agweddau sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau, yn cynnwys hwyluso rhaglenni ymyrraeth llythrennedd a rhifedd.  Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi sicrhau gwelliant mewn safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn targedu arian y Grant Amddifadedd Disgyblion yn addas ar gyfer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae'r grant yn cael ei ddefnyddio'n bennaf er mwyn ariannu cymorthyddion dysgu i gefnogi datblygiad medrau sylfaenol y grwpiau hyn o ddisgyblion.  Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth gadarn o effaith y grant ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol ac yn monitro gwariant yn briodol trwy gyfarfodydd llywodraethwyr.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan y disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth anfoddhaol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6672293 - YSGOL GYMUNEDOL LLANNON**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 42 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | * | 6 | 7 | 6 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | * | 50.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | 7 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 50.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | 42.9 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 2 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | 7 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 83.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 0.0 | 42.9 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | 1 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 6 | 7 | 6 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | 66.7 | 85.7 | 16.7 |
| Chwartel meincnod | * | 1 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6672293 - YSGOL GYMUNEDOL LLANNON**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 42 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 15.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | * | 9 | * | 5 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | * | 77.8 | * | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | * | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 77.8 | * | 40.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | * | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 44.4 | * | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 4 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | * | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 88.9 | * | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | 9 | * | 5 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | 88.9 | * | 0.0 |
| Chwartel meincnod | * | 3 | * | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 20 | 19 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 20 | 12 | 8 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 60% | 40% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 20 | 16 | 4 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 80% | 20% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 20 | 17 | 3 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 85% | 15% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 20 | 15 | 5 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 75% | 25% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 20 | 20 | 0 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 20 | 20 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 20 | 18 | 2 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 90% | 10% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 20 | 15 | 5 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 75% | 25% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 20 | 19 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 20 | 8 | 12 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 40% | 60% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 20 | 8 | 12 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 40% | 60% | |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Susan Jones | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Alun Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Geoff Davies | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.